

## BRIEFING

*Rydw i wedi cyflwyno cynnig i'r Cyfarfod Llawn ar 16 Mai 2012 am ganiatâd i gyflwyno'r Bil uchod. Mae'r nodiadau briffio sydd yma yn amlinellu egwyddorion cyffredinol a diben y bil.*

## CEFNDIR

Mae miloedd o weithwyr yng Nghymru yn dioddef o glefydau sy'n gysylltiedig ag asbestos. Mae dod i gysylltiad ag asbestos wedi achosi marwolaethau miloedd yn ystod y degawdau diwethaf. Mae llawer mwy yn dioddef salwch hir, sy'n aml yn gwaethygu o'r dechrau ac sy'n arwain at farw cyn pryd. Mae llawer o deuluoedd yng Nghymru wedi ac yn diodde'n enbyd yn sgil poen a galar. Rhagwelir y bydd y gost ddynol yn parhau am ddegawdau ac nid oes disgwyl i gyfradd marwolaethau gyrraedd uchafbwynt tan o leiaf 2015. Mae yna sawl math o glefyd asbestos. Mae tua 100 achos o mesothelioma yn cael eu diagnosis yng Nghymru bob blwyddyn, sef cancer leinin yr ysgyfaint. Bydd y dioddefwr wedi dod i gysylltiad ag asbestos ac mae'n angheuol, gyda'r claf fel arfer yn marw rhwng 3 a 9 mis ar ôl cael diagnosis. Mae Adran Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn amcangyfrif, am bob achos o mesothelioma, bod nifer tebyg o achosion o ganser yr ysgyfaint cysylltiedig ag asbestos hefyd yn cael eu diagnosis bob blwyddyn. Mae yna hefyd gannoedd o achosion o asbestosis bob blwyddyn (ffibrosis yr ysgyfaint) a llawer mwy o achosion o dewychu pliwraidd.

Mae'r rhan fwyaf o achosion yn codi o ganlyniad i ddod i gysylltiad ag asbestos ddegawdau yn ôl. Tua 30-40 mlynedd yw'r cyfnod cudd ar gyfer mesothelioma a gall 50 mlynedd neu fwy basio rhwng dod i gysylltiad ag asbestos a'r symptomau'n ymddangos. Mae dwywaith cymaint o bobl yn marw o glefydau malaen sy'n gysylltiedig ag asbestos yng Nghymru nag sy'n cael eu lladd [ar ein ffyrdd yng Nghymru].

Mae pobl wedi dod i gysylltiad ag asbestos yn bennaf yn eu llyfdd gwaith - mewn pwerdai, gweithfeydd dur, ffatrioedd, iardiau llongau, y diwydiant lagio, gwneud boeleri ac ym meysydd peirianeg ac adeiladu. Yn wir, fe welir mwy o achosion o mesothelioma mewn gwaith lle roedd asbestos yn cael ei ddefnyddio i inswleiddio neu at ddibenion eraill. Rydym yn gweld mwy a mwy o achosion o mesothelioma lle'r oedd y dioddefwr wedi dod i gysylltiad ag asbestos mewn adeiladau, yn cynnwys gweithleoedd sector cyhoeddus ac ysgolion, lle y defnyddiwyd asbestos wrth adeiladu neu inswleiddio. Dim ond rhai enghreifftiau sydd yn y rhestr hon.



## ATEBOLRWYDD CYFREITHIOL DROS Y CLEFYD

Rydym ni'n gwybod ers canrif a mwy am beryglon asbestos ac eto, tan y 1970au, ychydig iawn oedd wedi'i wneud i'w atal neu i gyfyngu ar ei ddefnydd.

Mewn llawer o achosion, pan fydd clefyd asbestos yn cael ei ddiagnosis, gellir pennu bod achos o esgeuluster a bod cyfraith iechyd a diogelwch wedi'i thorri. Gellir gwneud hyn gyda help cymorth cyfreithiol arbenigol, ac yn enwedig cyfreithwyr undebau llafur, a gall arwain at ddioddefwyr a'u teuluoedd yn dwyn achos sifil am iawndal.

Mae'r achosion hyn wedi codi yn sgil dyfarniadau Llys yn erbyn cyn-gyflogwyr ac yswirwyr neu drwy setliadau'n cael eu gwneud y tu allan i'r llys.

# BIL ASBESTOS

(ADENNILL COSTAU)



## Y RHESYMAU DROS Y BIL

Mae cost gymdeithasol clefydau asebstos yn gryn faich ariannol ar y GIG yng Nghymru, a hynny mewn cyfnod o gynt. Pan geir diagnosis o'r clefyd, bydd yn rhaid ymweld â'r meddyg teulu, yna ymweld ag arbenigwyr am radioleg, radiotherapi, cemotherapi, biopsis, llawdriniaeth ac mewn sawl achos, gofal lliniarol yn y pen draw. Mewn achosion lle mae'n amlwg bod cyflogwr wedi bod yn esgulus neu os oes setliad sifil am iawndal yn ddyledus, credaf ei bod ond yn iawn i'r parti esgeulus (yswiriwr atebolwydd y cyflogwr neu atebolwydd cyhoeddus fel rheol) ad-dalu cost y driniaeth feddygol a dalwyd gan GIG Cymru i'r GIG. Yr un egwyddor sydd yma ag y gwelir mewn deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli i adennill budd-daliadau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau mewn achosion o niwed personol a chostau meddygol y GIG mewn achosion yn ymwneud â damweiniau ar y ffyrdd.

## SUT FYDD Y BIL YN CYFLAWNI HYN?

Bydd y Bil yn caniatáu i Lywodraeth Cymru adennill costau'r triniaethau meddygol a'r gwasnaethau a ddarperir neu a gyllidir gan GIG Cymru gan y parti esgeulus neu ei yswiriwr. Nid yw'r Bil yn creu unrhyw hawliad i iawndal lle na fyddai hawliad fel arall yn bodoli – yn hytrach mae'n sbarduno Llywodraeth Cymru i adennill costau triniaethau meddygol unwaith y bydd dioddefwr asbestos neu ei gynrychiolydd wedi sicrhau setliad neu ddyfarniad o'i blaid.

## SUT FYDD Y COSTAU MEDDYGOL YN CAEL EU DEFNYDDIO?

Y nod yw bod y costau meddygol sy'n cael eu hadennill yn cael eu neilltuo gan y Gweinidog Iechyd bob blwyddyn er budd cyffredinol dioddefwyr asbestos a'u teuluoedd, gan gynnwys cefnogaeth i dderbyn gofal lliniarol a thriniaethau eraill.

## CYMHWYSEDD

Cyflwynir y Bil fel deddfwriaeth iechyd o dan Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006



FFIBRAU ASBESTOS